



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Dangosyddion cenedlaethol a cherrig milltir cenedlaethol ar gyfer Cymru

Dangosyddion cenedlaethol a cherrig milltir cenedlaethol ar gyfer Cymru yn unol â'r gofynion yn Adran 10(8) a (10)(3) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015



Gosodwyd gerbron Senedd Cymru, 14 Rhagfyr 2021

Adroddiad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Yng Nghymru rydym yn gwneud pethau'n wahanol.

Mae gennym gyfraith yng Nghymru sy'n ein helpu ni i gyd i weithio gyda'n gilydd i wella ein hamgylchedd, ein heconomi, ein cymdeithas a'n diwylliant.

Er mwyn ein pobl, er mwyn ein planed. Ar gyfer nawr, ac ar gyfer ein dyfodol.

Ei henw yw [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#)

Mae 7 nod llesiant cysylltiedig ar gyfer Cymru, sef:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Dangosyddion cenedlaethol

O dan adran 10(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae'n rhaid eu defnyddio i fesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Senedd.

Rhaid mynegi dangosydd cenedlaethol fel gwerth neu nodwedd y gellir ei fesur yn feintiol neu'n ansoddol yn erbyn canlyniad penodol. Gellir ei fesur dros unrhyw gyfnod y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol a gall fod yn fesuradwy mewn perthynas â Chymru neu ag unrhyw ran ohoni.

Mae rhagor o fanylion am y gofynion ar gael ar ein tudalennau [Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#)

Dylai'r 50 dangosydd cenedlaethol a gyhoeddwyd ac a osodwyd gerbron Senedd Cymru ar 14 Rhagfyr 2021 gael eu darllen gyda'r ddogfen gwybodaeth dechnegol am ddangosyddion cenedlaethol ([Llesiant Cymru: disgrifiadau technegol dangosyddion cenedlaethol a dolenni data](#)) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae hon yn cynnwys gwybodaeth dechnegol atodol am bob dangosydd gan gynnwys o ble y daw'r data; y dadgyfuno arfaethedig yn ôl nodwedd warchoddedig (fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010) ac ardal, a data cyd-destunol i helpu i ddadansoddi'r dangosydd dros amser.

O dan adran 10(8) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio'r dangosyddion cenedlaethol, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (a) gyhoeddi'r dangosyddion fel y'u diwygiwyd a (b) gosod copi ohonynt gerbron y Senedd. Mae'r dangosyddion a osodwyd ar 14 Rhagfyr 2021 yn disodli'r set a osodwyd ar 16 Mawrth 2016.

Y "dangosyddion cenedlaethol"

1. Canran y genedigaethau byw sengl â phwysau geni islaw 2,500g
2. Disgwyliad oes iach adeg geni gan gynnwys y bwch rhwng y bobl fwyaf a lleiaf difreintiedig
3. Canran yr oedolion sydd â dau ymddygiad iach neu fwy o ran eu ffordd o fyw
4. Lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO₂) yn yr aer
5. Canran y plant sydd â dau ymddygiad iach neu fwy o ran eu ffordd o fyw
6. Mesur o ddatblygiad plant bach
7. Sgôr 9 pwynt gyfartalog disgyblion wedi'i chapio, gan gynnwys y bwch rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys
8. Canran yr oedolion â chymwysterau ar y gwahanol lefelau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol
9. Gwerth Ychwanegol Gros am bob awr a weithir (o'i gymharu â chyfartaledd y DU)
10. Incwm Gwario Gros Aelwydydd, y pen
11. Canran y busnesau sydd wrthi'n arloesi
12. Capasiti (mewn MW) yr offer ynni adnewyddadwy sydd wedi'i osod
13. Crynodiad carbon a deunydd organig mewn pridd
14. Ôl troed byd-eang Cymru
15. Swm y gwastraff a gynhyrchir ac na chaiff ei ailgylchu, y pen
16. Canran y bobl sydd mewn cyflogaeth, sydd ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro, ac nad ydynt yn ceisio gwaith parhaol) ac sy'n ennill o leiaf y Cyflog Byw gwirioneddol
17. Gwahaniaeth cyflog o ran rhyw, anabledd ac ethnigrwydd
18. Canran y bobl sy'n byw ar aelwydydd mewn tlodi incwm o'i gymharu â chanolrif y DU: wedi'i mesur ar gyfer plant, pobl o oedran gweithio a phobl o oedran pensiwn

19. Canran y bobl sy'n byw ar aelwydydd mewn amddifadedd materol
20. Cyfran y cyflogeion y pennir eu cyflog drwy gydfargeinio
21. Canran y bobl sydd mewn cyflogaeth
22. Canran y bobl sydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran
23. Y ganran sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol
24. Canran y bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/cael at y cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt
25. Canran y bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio
26. Canran y bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw
27. Canran y bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch
28. Canran y bobl sy'n gwirfoddoli
29. Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl
30. Canran y bobl sy'n unig
31. Canran yr anheddau sydd heb beryglon
32. Nifer yr unedau eiddo (cartrefi a busnesau) sydd mewn perygl uchel a chanolig o lifogydd sy'n deillio o afonydd a'r môr
33. Canran yr anheddau â pherfformiad ynni digonol
34. Nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref am bob 10,000 o aelwydydd
35. Canran y bobl sy'n bresennol neu'n cyfranogi mewn gweithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf deirgwaith y flwyddyn
36. Canran y bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg
37. Nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg
38. Canran y bobl sy'n cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos
39. Canran yr amgueddfeydd ac archifau sy'n dal casgliadau archifol/treftadaeth sy'n cyrraedd safonau achredu'r DU
40. Canran yr asedau amgylchedd hanesyddol dynodedig sydd mewn cyflwr sefydlog neu well

41. Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru
42. Allyriadau nwyon tŷ gwydr sydd i'w priodoli i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau byd-eang yng Nghymru
43. Ardaloedd o ecosystemau iach yng Nghymru
44. Statws amrywiaeth fiolegol yng Nghymru
45. Canran y cyrff dŵr wyneb a'r cyrff dŵr daear sy'n cyrraedd statws da neu uchel ar y cyfan
46. Dinasyddiaeth fyd-eang weithredol yng Nghymru
47. Canran y bobl sydd â hyder yn y system gyfiawnder
48. Canran y siwrneiau a wneir ar droed, ar feic neu ar drafnidiaeth gyhoeddus
49. Canran yr aelwydydd sy'n gwario 30% neu fwy o'u hincwm ar gostau mewn perthynas â thai
50. Statws cynhwysiant digidol

Cerrig Milltir Cenedlaethol

O dan adran (10)(3) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rhaid i Weinidogion Cymru osod cerrig milltir mewn perthynas â'r dangosyddion cenedlaethol a fyddai, ym marn Gweinidogion Cymru, yn helpu i fesur a oes cynnydd yn cael ei wneud tuag at gyflawni'r nodau llesiant.

Wrth osod carreg filltir, rhaid i Weinidogion Cymru bennu (a) y meini prawf ar gyfer penderfynu a yw'r carreg filltir wedi'i chyflawni (drwy gyfeirio at y gwerth neu'r nodweddion a ddefnyddir i fesur y dangosydd), a (b) erbyn pryd y mae'r carreg filltir i'w chyflawni.

Mae rhagor o fanylion am y gofynion ar gael ar ein tudalennau [Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#)

Y cerrig milltir cenedlaethol:

Dangosydd cenedlaethol	Carreg filltir genedlaethol
5. Canran y plant sydd â dau ymddygiad iach neu fwy o ran eu ffordd o fyw	Cynyddu canran y plant sydd â dau ymddygiad iach neu fwy i 94% erbyn 2035 ac i dros 99% erbyn 2050
8. Canran yr oedolion â chymwysterau ar y gwahanol lefelau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol	Bydd gan 75% o oedolion o oedran gweithio yng Nghymru gymwysterau ar lefel 3 neu uwch erbyn 2050 Bydd canran yr oedolion o oedran gweithio sydd heb unrhyw gymwysterau yn 5% neu lai ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru erbyn 2050
14. Ôl troed ecolegol Cymru	Dim ond ei chyfran deg o adnoddau'r byd y bydd Cymru'n ei defnyddio erbyn 2050
17. Gwahaniaeth cyflog o ran rhyw, anabledd ac ethnigrwydd	Dileu'r bwloch cyflog o ran rhyw, anabledd ac ethnigrwydd erbyn 2050
21. Canran y bobl sydd mewn cyflogaeth	Dileu'r bwloch rhwng cyfradd gyflogaeth Cymru a chyfradd y DU erbyn 2050, gan ganolbwyntio ar waith teg a chynyddu nifer y bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n cyfranogi yn y farchnad lafur
22. Canran y bobl sydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i	Bydd o leiaf 90% o'r rhai 16-24 oed oedd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050

mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran	
37. Nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg	Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050
41. Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru	Bydd allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru yn cyrraedd sero net erbyn 2050.